# Pwy ydym **ni**?

# Rydym ni yma er budd **pawb**.

Dosbarthwyr arian.
Elusen gofrestredig.
Creadigol.
Angerddol dros y celfyddydau.
Eiriolwyr cydraddoldeb.
Cymreig a Chymraeg.
Casglwyr data.
Mentoriaid.
Teg.
Caredig.
Agored.

celf.cymru

Gosod y celfyddydau wrth **wraidd** bywyd a lles Cymru.

Gwnawn hyn drwy ganolbwyntio ar:

# Cydraddoldeb
# Gwytnwch
# Cydweithio

Rydym ni'n helpu derbynwyr grantiau i gyflawni tri pheth:

## **Creu** celfyddyd, **cyrraedd** cynulleidfaoedd newydd a **chynnal** arferion creadigol

# Ein diwylliant gweithio

Rydym ni'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod celfyddydau Cymru o fudd i **bawb**, gan gynnwys ein staff.

# Cadw ein haddewidion

## Creu amgylchedd cynaliadwy

Mae cynaliadwyedd yn dechrau gyda ni. Mae hynny'n golygu ein bod yn sicrhau bod ein hamgylchedd gwaith yn cadw at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae ein llefydd gweithio yn lleoedd democrataidd ar y cyd sy'n annog bod yn agored a chreadigol.

## Cydweithio

Bob blwyddyn, rydym ni'n ariannu cannoedd o brosiectau artistig, **mawr a bach**, lleol a rhyngwladol. **Cydweithio** effeithlon a rheolaidd ar draws timau a phellterau yw'r allwedd i lwyddiant. Gwnawn hyn drwy fabwysiadu'r technolegau diweddaraf, gyda cymaint o gyswllt **wyneb yn wyneb** â phosibl.

## Cynyddu hygyrchedd

Rhaid i'r celfyddydau fod ar gael i bawb. Rydym ni'n buddsoddi mewn **staff**, mewn **hyfforddiant** ac mewn **technoleg** sy'n ein galluogi i wneud ein cyfleoedd mor **hygyrch** â phosibl.

# Sut rydym ni'n **siarad**

Dylai popeth fod yn glir, yn agored ac yn garedig.

# Yr hyn a wnawn

- Ysgrifennu'n glir yn y ddwy iaith.
- Cyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar.
- Esbonio'n syml dechnegau neu ddulliau artistig.
- Cyfathrebu yn Gymraeg yn gyntaf, wedyn y Saesneg.
- Rhannu ein harbenigedd ond heb honni ein bod yn gwybod popeth.
- Defnyddio hiwmor a chreadigrwydd.

# Yr hyn na wnawn

- Defnyddio jargon.
- Defnyddio acronymau (heb eu hysgrifennu'n llawn wrth eu crybwyll yn gyntaf).
- DEFNYDDIO LLYTHRENNAU BREISION SY'N GWEIDDI!
- Tybio fod pobl yn gwybod am beth rydym ni'n siarad heb roi'r cefndir iddynt.

---

Canllawiau ar gyfer ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg
**Canllawiau Cymraeg Clir**
**Canllawiau Saesneg Clir**

# Rhanddeiliaid allweddol

Y bobl a'r sefydliadau rydym ni'n eu hystyried yn ein gwaith a'n cyfathrebu.

## Sector y celfyddydau

- Artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymru
- Aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru
- Ein partneriaid cenedlaethol a rhyngwlado
- Aelodau o'n Cyngor
- Ein huwch dîm arweinyddiaeth
- Ein pwyllgorau
- Ein staff
- Y bobl sy'n cael ein grantiau
- Timau prosiect mewnol
- Ein dilynwyr digidol a'n tanysgrifwyr

## Pobl ddylanwadol

- Llywodraeth Cymru
- Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Llywodraeth Cymru
- Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd (AS)
- Awdurdodau lleol
- Y Loteri Genedlaethol a dosbarthwyr eraill yr arian at achosion da

# Cyfathrebu digidol

Rydym ni'n cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o lwyfannau digidol.

**ebost, mewnrwyd, chwilio, gwefan, cylchlythyrau, Twitter, Facebook, Instagram, YouTube, Vimeo**

Dyma'n strategaeth ddigidol: anfon y **neges mwyaf perthnasol** at y bobl gywir ar yr adeg orau.

# Hunaniaeth weledol

Mae'r ymennydd yn prosesu lluniau 60,000 gwaith yn **gyflymach** na thestun. Mae 90% o'r wybodaeth a gaiff yr ymennydd yn weledol.

---

Ffynonellau:
http://misrc.umn.edu/workingpapers/fullpapers/1986/8611.pdf
http://news.mit.edu/2014/in-the-blink-of-an-eye-0116

# Logo

Mae ein logo ar gael mewn fformat ar i fyny ac ar draws, mewn tri dewis:

Lliw

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Du

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Dylech ei osod yn glir ar y tudalen a pheidio â'i newid o gwbl.

Gwyn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Logos ychwanegol

Mae ein harian yn dod o Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Rhaid cydnabod hyn drwy arddangos eu logos ar bob cyhoeddusrwydd allanol.

Llywodraeth Cymru

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Y Loteri Genedlaethol

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**
**THE NATIONAL LOTTERY®**

# Palet lliw

## Sylfaenol

C56 M12 Y0 K43
R65 G170 B207
# 3FABCF

## Eilaidd

C96 M61 Y43 K38
R1 G67 B88
# 014358

C69 M14 Y13 K0
R63 G171 B207
# 3FABCF

## Acennog

C15 M100 Y90 K10
R190 G22 B34
# BE1622

C14 M23 Y90 K2
R224 G188 B40
# E0BC28

C49 M14 Y99 K1
R151 G175 B36
# 97AF24


# Ffont

## FS Me
ffont sydd wedi'i ddylunio'n hardd i bawb.

Nod **FS Me** yw bod yn hawdd ei ddarllen i bobl ag anableddau dysgu.

Datblygwyd y ffont gyda **Mencap**, prif elusen Prydain ar gyfer y rhai ag anableddau dysgu. Mae pob llythyren **FS Me** wedi cael ei phrofi am ei hapêl a'i symlrwydd gan bobl ag anableddau dysgu ledled Prydain.

# FS Me - y teip hygyrch



# Dylunio mewn dwy iaith

Rhaid meddwl yn **ddwyieithog** o'r cychwyn yn deg.

Rhowch gynnwys Cymraeg i'r chwith neu uwchben y cynnwys Saesneg.

Rhaid trin y ddwy iaith yr un fath, o ran

**ffont, fformat, lliw, maint, amlygrwydd ac ansawdd.**

# Dylunio hygyrch

Dylai'r holl ddeunyddiau sydd wedi'u dylunio fod yn hygyrch.

# Egwyddorion dylunio

- Gwnewch yn siŵr bod y dyluniad yn syml a thaclus.
- Dylid gwahanu'n glir elfennau ar y tudalen – ni ddylent gystadlu â'i gilydd.
- Defnyddiwch ffont tywyll plaen ar gefndir golau neu ffont gwyn ar gefndir du neu dywyll.
- Osgowch graffeg cefndir sy'n gwneud y testun yn anodd ei ddarllen.
- Cadwch destun y corff i 12 pwynt o leiaf gyda 16 pwynt ar gyfer penawdau.
- Aleiniwch y testun i'r chwith.
- Dewiswch lythrennau bach dros briflythrennau.
- Osgowch italig a thanlinellu.

# Lluniau



Rydym ni'n defnyddio lluniau proffesiynol o safon sy'n cynnwys ystod eang o bobl lle bynnag y bo modd. Ni ddefnyddiwn luniau sydd wedi'u trefnu'n rhy amlwg – rhaid iddynt ymddangos yn lled naturiol o leiaf.

Rydym eisiau i'n delweddau hyrwyddo amrywiaeth.

## Caniatâd a chredyd

Rhaid i bob llun gael y caniatâd cywir gan yr awdur neu'r ffynhonnell.

Rhaid arddangos credyd bob tro y dangosir y llun.

## Testun amgen

Mae testun amgen yn disgrifio pwrpas llun, darlun, siart ac ati i bobl nad ydynt yn eu gweld.

Pan fydd llun yn cael ei defnyddio mewn dogfen neu ar y wefan, rhaid cael testun amgen clir a disgrifiadol gydag ef.

# Diolch yn fawr.